OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 35 (Cy. 11) (C. 6)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 2) 2018

*Gwnaed - - - - 11 Ionawr 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 97(2) a (3) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 2) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 25 Ionawr 2018**

**2.** Y dyddiad penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 25 Ionawr 2018—

(a) adran 8(4) (diffiniadau mewn perthynas â gweithgarwch safle tirlenwi);

(b) adran 20(3) i (6) (cais am gymeradwyaeth i ddefnyddio dull arall i bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy);

(c) adran 21(1) i (5) a (7) (cais am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt dŵr);

(d) adrannau 24 i 26 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â'r dull o bennu pwysau deunydd, pŵer i addasu darpariaeth sy'n ymwneud â phwysau trethadwy deunydd a rhyddhadau: cyffredinol);

(e) adran 29(2) a (3) (cymeradwyo adfer safle);

(f) adran 30 (adfer safle: y weithdrefn ar gyfer cymeradwyaeth);

(g) adran 31 (adfer safle: amrywio cymeradwyaeth);

(h) adran 34 (cofrestr o bersonau sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy);

(i) adran 35(2) i (5) (cais i fod yn gofrestredig);

(j) adran 36 (newidiadau a chywiro gwybodaeth);

(**1**) 2017 dccc 3.

(k) adran 37(5) a (6) (canslo cofrestriad);

(l) adran 38 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â chofrestru);

(m) adran 39(5) i (8) (cyfnodau cyfrifyddu);

(n) adran 40 (pŵer i amrywio cyfnod cyfrifyddu neu ddyddiad ffeilio);

(o) adran 43(2) (crynodeb treth gwarediadau tirlenwi);

(p) adran 55 (dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu);

(q) adran 57(3) (cofnodion man nad yw at ddibenion gwaredu);

(r) adran 58 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dynodi mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu);

(s) adran 59 (pwerau archwilio);

(t) adran 66 (cosb am fethu â chydymffurfio â gofynion eraill sy'n ymwneud â chofrestru);

(u) adran 67 (asesu cosb o dan adran 66);

(v) adrannau 70 i 72 (talu cosbau, gwahardd cosbi ddwywaith ac atebolrwydd cynrychiolwyr personol);

(w) Pennod 6 (achosion arbennig) o Ran 5 (darpariaeth atodol), ac eithrio adrannau 85 i 87;

(x) adran 90 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**2**)) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 4 y cyfeirir atynt ym mharagraff (z);

(y) Atodlen 2 (yr hyn sydd i'w gynnwys yn y gofrestr); a

(z) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016)—

(i) paragraffau 4 i 8;

(ii) paragraff 16; a

(iii) paragraffau 18 i 20.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018**

**3.** Daw unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf, i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn cyn 1 Ebrill 2018, i rym ar y dyddiad hwnnw.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

11 Ionawr 2018

(**2**) 2016 dccc 6.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf i rym ar 25 Ionawr 2018. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi i geisiadau amrywiol gael eu gwneud i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") ac yn darparu'r gallu i ACC gymeradwyo'r ceisiadau hyn cyn casglu treth gwarediadau tirlenwi. Mae darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud ag apelau a chosbau hefyd yn cael eu cychwyn ar y dyddiad hwn.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2018 i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn eisoes cyn y dyddiad hwn.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 14(3) a (6) (yn rhannol) | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 17 | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 33 | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 41(9) | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 46(4) | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 54 | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 60 | 8 Tachwedd 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 87 | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 91 | 18 Hydref 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |
| Adran 92 | 8 Tachwedd 2017 | 2017/955 (Cy. 242) (C. 89) |

*Gweler* hefyd adran 97(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 8 Medi 2017 (y diwrnod drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol).